

## NODIADAU CYFARWYDDYD

### Darparu Gwybodaeth Orlhain Anifeiliaid o dan y Cynllun Cymeradwy ar gyfer Labelu Cig Eidion

---

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu pa wybodaeth olrhain anifeiliaid sydd angen i chi ei hanfon i Lywodraeth i gefnogi eich cais o dan y Cynllun Labelu Cig Eidion newydd neu gais am honiadau ychwanegol.

Mae'n rhaid i geisiadau newydd o dan y Cynllun Labelu Cig Eidion neu geisiadau am honiadau ychwanegol a gyflwynir i Lywodraeth gynnwys gwybodaeth am eich system olrhain anifeiliaid a'ch mesurau. Dylai eich 'manyleb' ysgrifenedig ddisgrifio sut rydych yn mynd ati i sicrhau cywirdeb y wybodaeth rydych yn ei rhoi i'ch cwsmeriaid ar eich labeli. Bydd angen i Lywodraeth gymeradwyo'r fanyleb. Bydd hefyd angen i chi anfon copi o'ch label(i) yn dangos yr honiadau rydych yn ceisio cael cymeradwyaeth ar eu cyfer i Lywodraeth.

Mae'n rhaid i'ch manyleb ddisgrifio:

- (a) eich system olrhain anifeiliaid a ddefnyddir ym mhob cyfnod cynhyrchu a gwerthu (o olrhain yr anifeiliaid, eu lladd, torri/tynnu'r esgyrn a'u pecynnu, i'r lefel manwerthu, fel sy'n berthnasol) h.y. mae'n rhaid i'ch system reoli ddangos y gellir olrhain y cig eidion rydych yn ei werthu neu ei gyflenwi yn ôl i'r anifail neu'r grŵp o anifeiliaid y mae'r cig yn deillio ohono. Yn dibynnu ar eich math o fusnes, gallai'r system reoli sy'n cefnogi'r honiadau ar eich labeli gynnwys defnyddio tagiau clust a phasbortau gwartheg, cofnodion lladd-dai, dogfennau gan eich cyflenwr(wyr), system olrhain gyfrifiadurol a chofnodion yn eich busnes;
- (b) y mesurau a ddefnyddir gan eich dilyswr i warantu cywirdeb y wybodaeth ar eich labeli. Bydd angen i chi gysylltu â'ch dilyswr i ofyn sut y mae'n bwriadu dilysu eich honiad(au). Unwaith i Lywodraeth gymeradwyo'ch manyleb, bydd angen i chi anfon copi ohoni at eich dilyswr cyn iddo ddechrau archwilio eich system reoli.

Dylid anfon ceisiadau ysgrifenedig mewn perthynas â honiadau newydd ac ychwanegol i Lywodraeth (Yr Is-adran Datblygu Bwyd, Pysgodfeydd a'r Farchnad, Yr Adran Materion Gwledig, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UR). I gael cyngor pellach, ffoniwch Lywodraeth ar 0300 062 2000.

Mae gwybodaeth am labelu cig eidion ar wefan Llywodraeth.